OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 1905 (Cy.163)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) (Diwygio) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

**1**. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o "Rheoliad y Comisiwn" a geir yn Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru 2001 (O.S. 2001/1361), "Rheoliadau 2001;"

**2**. Wrth ddiwygio'r diffiniad hwnnw yn Rheoliadau 2001, mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 445/2007 sy'n gosod rheolau manwl penodedig ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2991/94 sy'n gosod safonau ar gyfer brasterau taenadwy ac ar gyfer Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1898/87 ar ddiogelu dynodiadau a ddefnyddir yn y rheoliad ar farchnata llaeth a chynhyrchion llaeth (OJ Rhif L106, 24.4.2007, t.24). Dirymodd Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 445/2007 Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 577/97 fel y'i diwygiwyd, gan gymryd ei lle heb ddiwygiad pellach.

**3**. Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer y Rheoliadau hyn, gan na ragwelir y byddant yn effeithio o gwbl ar y sector breifat na'r sector wirfoddol.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 1905 (W.163)

# FOOD, WALES

## The Spreadable Fats (Marketing Standards) (Wales) (Amendment) Regulations 2007

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

**1**. These Regulations amend the definition of the "the Commission Regulation" contained in the Spreadable Fats (Marketing Standards) (Wales) Regulations 2001 (S.I. 2001/1361), "the 2001 Regulations".

**2**. In amending that definition in the 2001 Regulations, these Regulations provide for the execution and enforcement of Commission Regulation (EC) No.445/2007 laying down certain detailed rules for the application of Council Regulation (EC) No. 2991/94 laying down standards for spreadable fats and of Council Regulation (EEC) No. 1898/87 on the protection of designations used in the marketing of milk and milk products (OJ No. L106, 24.4.2007, p.24). Commission Regulation (EC) No. 445/2007 revoked and replaced without further amendment Commission Regulation (EC) No. 577/97 as amended.

**3**. A full regulatory impact assessment has not been prepared for these Regulations because no impact on the private or voluntary sectors is foreseen.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 1905 (Cy.163)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) (Diwygio) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *3 Gorffennaf 2007* |
| *Wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *5 Gorffennaf 2007* |
| *Yn dod i rym* | *31 Gorffennaf 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 16(1), 17(2), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd iddynt gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, ac yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**) cafwyd ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 1990 p. 16. Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Secretary of State", i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S 1999/672 fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28). Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 mae'r swyddogaethau a roddir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn i'w harfer gan Weinidogion Cymru.

(**2**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1. Diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf adeg gwneud y Rheoliadau hyn gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 575/2006 (OJ Rhif L100, 8.4.2006, t.3).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 1905 (W.163)

# FOOD, WALES

## The Spreadable Fats (Marketing Standards) (Wales) (Amendment) Regulations 2007

| | |
|---|---|
| *Made* | *3 July 2007* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *5 July 2007* |
| *Coming into force* | *31 July 2007* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 16(1), 17(2), 26(1) and (3) and 48(1) of the Food Safety Act 1990(**1**).

In accordance with section 48(4A) of that Act the Welsh Ministers have had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency.

As required by Article 9 of Regulation (EC) No. 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(**2**), there has been open and transparent public consultation during the preparation and evaluation of these Regulations.

(**1**) 1990 c. 16. Functions formerly exercised by the "Secretary of State" so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by S.I 1999/672 as read with section 40(3) of the Food Standards Act 1999 (1999 c.28). By virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, functions conferred on the National Assembly for Wales are exercisable by the Welsh Ministers.

(**2**) OJ No. L31, 1.2.2002, p.1. That Regulation was last amended as at the date these Regulations are made by Commission Regulation (EC) No. 575/2006 (OJ No. L100, 8.4.2006, p.3).

**Enwi a chychwyn**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) (Diwygio) 2007 a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2007.

**Diwygio Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) 2001**

**2**.-(1) Diwygir Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) 2001(**1**) yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn rheoliad 2(1) (Dehongli), yn lle'r diffiniad o "Rheoliad y Comisiwn" rhodder

> "ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 445/2007 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 2991/94 sy'n gosod safonau ar gyfer brasterau taenadwy ac ar gyfer Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1898/87 ar ddiogelu dynodiadau a ddefnyddir wrth farchnata llaeth a chynhyrchion llaeth(**2**);".

**Title and commencement**

**1**. The title of these Regulations is the Spreadable Fats (Marketing Standards) (Wales) (Amendment) Regulations 2007 and come into force on 31 July 2007.

**Amendment of the Spreadable Fats (Marketing Standards) (Wales) Regulations 2001**

**2**.-(1) The Spreadable Fats (Marketing Standards) (Wales) Regulations 2001(**1**) are amended in accordance with paragraph (2).

(2) In regulation 2(1) (interpretation), for the definition of the Commission Regulation substitute-

> ""the Commission Regulation" means Commission Regulation (EC) No.445/2007 laying down certain detailed rules for the application of Council Regulation (EC) No. 2991/94 laying down standards for spreadable fats and of Council Regulation (EEC) No. 1898/87 on the protection of designations used in the marketing of milk and milk products(**2**);".

*Gwenda Thomas*

O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

Under authority of the Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers.

3 Gorffennaf 2007

3 July 2007

(**1**) O.S. 2001/1361 (Cy.89).

(**2**) OJ Rhif L106, 24.4.2007, p.24.

(**1**) S.I. 2001/1361 (W.89).

(**2**) OJ No. L. L106, 24.4.2007, p.24.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2007 Rhif 1905 (Cy.163)

## 2007 No. 1905 (W.163)

## BWYD, CYMRU

## FOOD, WALES

# Rheoliadau Brasterau Taenadwy (Safonau Marchnata) (Cymru) (Diwygio) 2007

# The Spreadable Fats (Marketing Standards) (Wales) (Amendment) Regulations 2007

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W104/07/07 ON